Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner




# Maniffesto 2026

Cynigion Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer etholiad Senedd Cymru 2026

Mehefin, 2025


# Rhagair

Gosododd Llywodraeth 2016–21 dargedau uchelgeisiol i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac i ddyblu'r defnydd dyddiol o'r iaith. Mae'r taflwybr i'r miliwn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd 680,000 o siaradwyr Cymraeg erbyn diwedd cyfnod y Senedd nesaf. Yn ôl canlyniadau'r cyfrifiad diweddaraf, 538,296 o siaradwyr Cymraeg oedd yng Nghymru yn 2021, gostyngiad o dros 23,000 ers 2011. Bydd rhaid felly i Lywodraeth nesaf Cymru gyflwyno ymyraethau beiddgar o blaid y Gymraeg os am gyrraedd y targed o filiwn erbyn 2050.

Er y bydd rhaid integreiddio'r Gymraeg ar draws agendâu polisi a deddfwriaeth Llywodraeth nesaf Cymru er mwyn gwneud cynnydd tuag at gyflawni gweledigaeth Cymraeg 2050, rwyf hefyd o'r farn bod angen cyflwyno ymyraethau sylweddol mewn rhai meysydd allweddol. Ni ellir disgwyl y bydd parhau i fuddsoddi a gweithredu yn yr un modd ag y gwnaed yn ystod y degawdau diwethaf rywsut yn arwain at ganlyniadau gwahanol. I bob pwrpas mae sefyllfa'r Gymraeg wedi aros yn gymharol ddigyfnewid ers ugain mlynedd, ac mae'n anorfod bod angen newid meddylfryd a dulliau ymyrryd os am wyrdroi hyn.

Rwyf yn ymwybodol bod cyfnod o gyfyngiadau ariannol heriol i'r sector cyhoeddus yn gefnlen i gynigion maniffestos etholiad 2026. Dyma un rheswm dros ganolbwyntio egnïon ar ymyraethau sydd â'r potensial i gael dylanwad sylweddol ac uniongyrchol ar nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r iaith. Mae nifer o'r cynigion yn adlewyrchu'r blaenoriaethau rydym wedi eu hadnabod yn ein cynllun strategol ar gyfer 2025–30. Rwyf o'r farn bod potensial i'r ymyraethau hyn gael effaith drawsnewidiol ar sefyllfa'r iaith Gymraeg mewn cyfnod o bum mlynedd.

Mae cynigion y papur hwn yn gofyn am weithredu ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru a chefnogaeth i hwyluso gwaith partneriaid allweddol eraill, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg. Mae gennyf ddisgresiwn eang i weithredu mewn unrhyw ffordd sy'n briodol er mwyn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae fy uchelgais fel Comisiynydd yn mynd y tu hwnt i ddehongliad cul o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonof gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac rwyf yn awyddus i arwain corff sy'n gwneud mwy ac yn cyfrannu'n fwy sylweddol at waith cynllunio ieithyddol ehangach. Mae'r cynigion isod yn adlewyrchu'r uchelgais hwn ac edrychaf ymlaen at eu gweld yn gwreiddio.





# Ein cynigion

1. **Dyletswyddau iaith -** cynyddu'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael i'r cyhoedd drwy ymestyn safonau'r Gymraeg i feysydd blaenoriaeth
2. **Cynllunio ieithyddol cymunedol -** ymestyn dylanwad y Comisiynydd drwy gryfhau'r safonau hybu fel fframwaith i gydlynu cynllunio ieithyddol cymunedol dwys
3. **Gweithleoedd -** sefydlu uned arbenigol yn swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd
4. **Gwasanaeth iechyd a gofal clinigol -** trawsnewid gofal clinigol yn Gymraeg drwy fuddsoddi a gweithredu'n ddwys mewn meysydd blaenoriaeth
5. **Y gweithlu addysg -** sefydlu fframwaith hyfforddiant iaith Gymraeg pum mlynedd fel rhan orfodol o hyfforddi fel athro yng Nghymru

## 1. Cynyddu'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael i'r cyhoedd drwy ymestyn safonau'r Gymraeg i feysydd blaenoriaeth

### Pam?

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r safonau dilynol wedi bod yn gam enfawr ymlaen o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'i chynlluniau iaith. Mae'r safonau wedi darparu lefel o sicrwydd i sefydliadau a defnyddwyr fel ei gilydd gan greu cyfleoedd newydd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ystod eang o sefyllfaoedd yng Nghymru.

Er bod nifer uchel o'r sefydliadau sydd wedi'u henwi yn Atodlenni Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 bellach yn ddarostyngedig i gyfundrefn safonau'r Gymraeg, mae rhai sefydliadau a sectorau a enwir yn y Mesur sy'n parhau i eistedd y tu allan iddi. Mae gan y Llywodraeth hefyd y gallu i ehangu darpariaethau'r Mesur, gan sicrhau bod mwy o sefydliadau'n gorfod cydymffurfio â'r safonau.

### Beth?

Rydym yn dymuno gweld maniffestos etholiad 2026 yn ymrwymo i'r canlynol:

- **Cyflwyno rheoliadau safonau'r Gymraeg ar gyfer Gweinidogion y Goron:** Mae Gweinidogion y Goron yn cael eu henwi yn Atodlen 6 y Mesur, a byddai angen cydsyniad Ysgrifennydd Gwladol er mwyn eu henwi mewn rheoliadau. Dylid blaenoriaethu'r adrannau gweinidogol sydd eisoes â chynlluniau iaith Gymraeg, er enghraifft, yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Dylid hefyd flaenoriaethu'r adran sydd â chyfrifoldeb dros weithrediad gwasanaethau digidol y Llywodraeth (GDS).

- **Cyflwyno rheoliadau safonau'r Gymraeg ar gyfer adrannau anweinidogol Llywodraeth y Deyrnas Unedig:** Byddai hyn yn cynnwys nifer o adrannau ac asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau pwysig i bobl Cymru, er enghraifft, Cyllid a Thollau EM (HMRC), Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA), Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), Gwasanaethau Carchardai a Phrawf EM.

- **Cyhoeddi rhaglen glir ar gyfer ymestyn safonau'r Gymraeg i sectorau a sefydliadau eraill:** Rydym yn galw am gyhoeddi amserlen benodol ar gyfer cyflwyno rheoliadau i sefydliadau a sectorau sydd eisoes wedi eu henwi yn y Mesur, yn ogystal â'r posibilrwydd o ehangu darpariaethau'r Mesur er mwyn cynnwys sectorau pwysig sydd heb eu henwi. Byddai angen i unrhyw raglen o'r fath ystyried yr adnodd byddai ei angen ar y Comisiynydd i barhau i weithredu fel rheoleiddiwr effeithiol.

  Ochr yn ochr â hynny, dylid ystyried yr angen i adolygu safonau'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod y gofynion yn parhau i fod yn berthnasol ac yn adlewyrchu'n deg y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu i ddefnyddwyr.

### Gwybodaeth ychwanegol

Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2023-24

Adroddiadau Comisiynydd y Gymraeg ar gydymffurfiaeth â dyletswyddau iaith

## 2. Ymestyn dylanwad y Comisiynydd drwy gryfhau'r safonau hybu fel fframwaith i gydlynu cynllunio ieithyddol cymunedol dwys

### Pam?

Mae sicrhau hyfywedd y Gymraeg fel iaith gymunedol ac fel iaith sy'n cael ei defnyddio'n feunyddiol yn un o'r heriau mwyaf sylweddol sy'n wynebu'r iaith Gymraeg heddiw. Mae canlyniadau'r cyfrifiad yn dangos yn glir bod sefydlogrwydd y Gymraeg yn y cymunedau lle mae dwysedd uwch o siaradwyr yn dirywio ac o dan fygythiad. Mae'n glir bod angen mwy o ffocws ar gefnogi defnyddio a throsglwyddo'r iaith yn yr ardaloedd hyn, ac yn wir ym mhob rhan o Gymru.

Mae'r safonau hybu sydd wedi'u gosod ar awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol yn berthnasol iawn yn y cyd-destun hwn. Mae'r safonau yn gosod dyletswydd arnynt i lunio a gwerthuso strategaethau hybu 5-mlynedd, sy'n esbonio sut maent yn bwriadu hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn eu hardal.

Mae gwella trefniadau awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol i baratoi a gwerthuso'r strategaethau yn un o flaenoriaethau cynllun strategol y Comisiynydd ar gyfer 2025–30. Er hyn, rhaid cydnabod bod cyfyngiadau sylweddol ar allu'r Comisiynydd i ddylanwadu ar gynnwys a llwyddiant gweithrediad y strategaethau ar hyn o bryd. Nid yw'r safonau yn pennu disgwyliadau clir o ran cynnwys y strategaethau, nac ychwaith yn pennu proses ar gyfer monitro a chraffu arnynt. Nid yw potensial y strategaethau hyn fel cerbyd ar gyfer cynllunio ieithyddol cymunedol yn cael ei gwireddu'n llawn eto.

Mae adroddiad diweddar y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn argymell y dylid adolygu ac ychwanegu at y safonau hybu er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial y strategaethau hybu 5-mlynedd fel cerbyd ar gyfer gwella cynllunio ieithyddol cymunedol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

### Beth?

- Ymrwymiad i gyflwyno papur gwyn cyn gynted â phosibl yn ystod y Senedd nesaf yn cynnig dull ar gyfer gweithredu prif argymhelliad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg i sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.
- Cryfhau'r safonau hybu er mwyn iddynt fod yn gerbyd mwy effeithiol ar gyfer cynllunio ieithyddol cymunedol. Byddai hyn yn cynnwys:
  - Ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, ac yn enwedig mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, bod gofyn i'r strategaethau hybu gael eu datblygu drwy gydweithio ag ystod o bartneriaid allweddol er mwyn creu strategaeth cynllunio ieithyddol gymunedol. Byddai'r strategaethau hyn yn eistedd ochr yn ochr â'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac yn canolbwyntio'n benodol ar gynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg a chael profiadau diwylliannol, cymunedol a chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg.

    - Mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, bod y strategaethau hybu yn cael eu defnyddio fel fframwaith ar gyfer cynllunio, adrodd a monitro gwahanol ymyraethau polisi. Tra byddai arweiniad cenedlaethol ynghylch sut y gallasai ardaloedd o'r fath amrywio polisi cyhoeddus, byddai'r strategaethau hybu yn gyfrwng ar gyfer gweithredu, adrodd a monitro ar lefel leol.
    - Cyfrifoldeb i'r Comisiynydd fonitro a darparu argymhellion i gyrff ar gyflawniad eu strategaethau ar sail adroddiadau blynyddol ac adroddiadau diwedd cyfnod.
    - Cyfrifoldeb i'r Comisiynydd adolygu llwyddiant y strategaethau, yn flynyddol ac ar ddiwedd eu cyfnod, a llunio adroddiad ag argymhellion i Lywodraeth Cymru. Byddai'r adroddiadau hyn yn sail tystiolaeth ar gyfer datblygu ymhellach bolisïau mewn meysydd allweddol, ac er mwyn sicrhau bod adnoddau digonol sydd wedi'u targedu'n gywir.

- Darparu adnodd ychwanegol i'r Comisiynydd fel y gall, yn rhan o'i rôl fel rheoleiddiwr, ymgymryd â dyletswyddau pellach yn monitro, craffu, a gwneud argymhellion i awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol, partneriaid eraill a Llywodraeth Cymru.
- Sefydlu adnodd penodol o fewn Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymhellach gynigion polisi manwl mewn meysydd allweddol fel **addysg, cynllunio a thai**, a **datblygu economaidd**. Byddai'r arweiniad cenedlaethol hwn yn datblygu'r polisïau y gallasai ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, ac o bosibl ardaloedd eraill yng Nghymru, eu gweithredu.
- Darparu adnodd ychwanegol i bartneriaid allweddol fel y mentrau iaith, Mudiad Meithrin, yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol a chlybiau chwaraeon – i'w galluogi i weithredu elfennau allweddol o'r strategaethau hyn.

## Gwybodaeth ychwanegol

Canllaw arfer da i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol

Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg – Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar gymunedau sydd â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg

Compendiwm Prosiect BRO o Ystadegau Iaith Cyfrifiad 2021 – Dr Richard Glyn Roberts a'r Athro Conchur O Giollagain

Dashfwrdd Data: Pwy sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru?

## 3. Sefydlu uned arbenigol yn swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd

### Pam?

Mae creu, cynnal a chefnogi gweithleoedd Cymraeg yn rhan gwbl allweddol o'r strategaeth ar gyfer sicrhau hyfywedd y Gymraeg. Y tu hwnt i'r byd addysg dyma'r maes strategol sydd â'r potensial mwyaf arwyddocaol i ddylanwadu yn uniongyrchol ar gyfleoedd pobl i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg, gan gyfrannu yn uniongyrchol at gyflawni dau brif amcan strategaeth Cymraeg 2050.

Mae angen adeiladu ar yr hyn mae'r system addysg yn ei gyflawni drwy sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol wrth weithio. Drwy gynyddu defnydd ffurfiol ac anffurfiol o'r Gymraeg yn y gweithle mae potensial i ddylanwadu ar ganfyddiad pobl o bwysigrwydd yr iaith, ar gyfleoedd i fagu hyder ieithyddol, ac ar ddefnydd ehangach o'r Gymraeg yn y gymuned.

Mae sicrhau bod y system addysg yng Nghymru yn cyfrannu at greu gweithlu cynyddol ddwyieithog yn rhan allweddol o'r strategaeth. Er hyn, mae hefyd angen llawer mwy o ffocws ar rôl cyflogwyr yn cynllunio ar gyfer gwneud defnydd o sgiliau Cymraeg eu gweithlu ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio.

Mae'r Comisiynydd eisoes yn arwain y gwaith hwn o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gweithleoedd gan weithio â sefydliadau cyhoeddus, busnesau ac elusennau. Mae cyfundrefn safonau'r Gymraeg yn cynnig fframwaith bwerus ar gyfer annog sefydliadau i symud ar hyd continwwm ieithyddol. Er enghraifft, mae'r safonau sy'n ymwneud ag asesu sgiliau ieithyddol y gweithlu; â recriwtio; ac â llunio polisi ynghylch cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gweithle, yn arfau allweddol ar gyfer gweithredu'n strategol yn y maes allweddol hwn. Mae cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd yn un o flaenoriaethau cynllun strategol y Comisiynydd ar gyfer 2025–30 a gyda buddsoddiad ychwanegol mae potensial amlwg i'r Comisiynydd wneud llawer mwy yn y maes strategol allweddol hwn.

### Beth?

Byddai buddsoddiad ychwanegol yn galluogi'r Comisiynydd i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach drwy sefydlu uned arbenigol i ganolbwyntio yn benodol ar y maes strategol allweddol hwn. Byddai'r uned yn:

- **Llunio ac arwain y broses o weithredu strategaeth gydlynol** ac aml-haenog i dargedu a chefnogi gwahanol sefydliadau cyhoeddus, busnesau ac elusennau i gynllunio'n strategol ar gyfer **symud ar hyd continwwm o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithleoedd**.
- **Ymchwilio ac arbrofi â dulliau gwahanol o newid ymddygiad**, ymchwilio i rwystrau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, adnabod camau ar gyfer cynyddu defnydd gan ymwneud â gweithleoedd o wahanol fathau a lleoliadau, a datblygu dealltwriaeth o sut mae arferion yn y gweithle yn effeithio ar arferion ehangach.
- **Ymchwilio a datblygu dulliau o fesur defnydd o'r Gymraeg o fewn gweithleoedd**, gan greu darlun cliriach o'r sefyllfa bresennol a galluogi mesur effaith gwahanol ymyraethau.

- **Cymhwyso dulliau o fesur sgiliau a hyfedredd yn y Gymraeg at bwrpas symud gweithleoedd ar hyd continwwm**. Gellid defnyddio'r fframwaith y bwriedir ei lunio ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg fel rhan o Fil y Gymraeg ac Addysg fel conglfaen ar gyfer cynllunio a mesur effaith gwahanol ymyraethau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd.
- **Hwyluso'r broses o dargedu a chydlynu darpariaeth hyfforddiant iaith Gymraeg**. Byddai modd i uned arbenigol adnabod sectorau y dylid eu blaenoriaethu yn seiliedig ar bwysigrwydd strategol ac ar gynlluniau strategol mewn sectorau a gweithleoedd penodol. Byddai'r uned hefyd yn canolbwyntio ar ddilyniant ieithyddol ac yn cynorthwyo cyflogwyr i gynllunio'n briodol ar gyfer sicrhau bod dysgwyr yn rhoi'r sgiliau Cymraeg ar waith. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn bartner amlwg yn y cyd-destun hwn ac maent eisoes yn cynnig hyfforddiant ieithyddol i weithleoedd yn rhan o'u rhaglen Cymraeg Gwaith.
- **Creu cyswllt cryfach a mwy strategol rhwng cyflogai a'r sector addysg a hyfforddiant**. Mae cyfleoedd amlwg i flaenoriaethu datblygu cyrsiau, rhaglenni a phrentisiathau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn meysydd blaenoriaeth ac mewn modd fyddai'n diwallu anghenion sefydliadau, busnesau ac elusennau sydd â'r bwriad o symud ar hyd continwwm ieithyddol. Bydd cydweithio â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Medr yn gwbl allweddol i sicrhau bod y sector addysg yn creu gweithlu â sgiliau Cymraeg, a'u bod wedi'u dosbarthu yn strategol ar draws, ac o fewn, sefydliadau gwahanol.

Y tu hwnt i'r pileri allweddol uchod, mae ystod o ffactorau eraill y dylid eu hystyried yn rhan o'r strategaeth gydlynol hon. Mae hyn yn cynnwys rôl allweddol y Llywodraeth yn cefnogi defnydd o'r Gymraeg drwy dechnoleg; materion yn ymwneud ag arweinyddiaeth a diwylliant; a pherthnasedd blaenoriaethau polisi cysylltiedig, er enghraifft ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

## Gwybodaeth ychwanegol

Cynllun Strategol Comisiynydd y Gymraeg 2025-2030

Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg – Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar gymunedau sydd â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg

Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

# 4. Trawsnewid gofal clinigol yn Gymraeg drwy fuddsoddi a gweithredu'n ddwys mewn meysydd blaenoriaeth

## Pam?

Mae gallu defnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaethau iechyd a gofal yn hollbwysig, yn arbennig gan y byddwn yn aml mewn sefyllfa o wendid wrth dderbyn y gwasanaethau hynny. Ar hyn o bryd nid yw siaradwyr Cymraeg yn derbyn y gofal y dylent ei dderbyn yn Gymraeg.

Yn sgil safonau'r Gymraeg mae gofyn i fyrddau iechyd ddarparu nifer o wasanaethau yn Gymraeg i'r cyhoedd ond nid oes dyletswydd arnynt i sicrhau bod modd i siaradwyr Cymraeg dderbyn gwasanaethau clinigol yn Gymraeg. Er hynny, mae gofyn i fyrddau iechyd gyhoeddi cynllun 5-mlynedd sy'n nodi'r camau y bwriadant eu cymryd i gynyddu eu gallu i gynnal ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg (safon 110). Mae byrddau iechyd wedi adnabod meysydd y maent yn bwriadu eu blaenoriaethu yn y cynlluniau hyn. Ers 2019 gosodwyd dyletswyddau sylfaenol mewn perthynas â'r Gymraeg ar ddarparwyr gofal sylfaenol trwy reoliadau. Mae rhai safonau ar fyrddau iechyd sy'n cyd-fynd â'r dyletswyddau hyn ac mae gofyn yn ogystal i fyrddau iechyd gyhoeddi polisi ar ddarparu gwasanaeth gofal sylfaenol (safonau 78 a 78A). Mae gofyn hefyd i awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am wasanaethau gofal ddarparu rhai elfennau o'u gwasanaethau yn Gymraeg ond nid oes rheidrwydd arnynt i ddarparu pecynnau gofal llawn yn Gymraeg.

*Mwy na geiriau* yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector iechyd a gofal ac yn benodol i gynyddu gofal clinigol yn Gymraeg. Mae wedi'i lunio yn unol ag egwyddor y Cynnig Rhagweithiol sy'n gosod cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg, yn hytrach nag ar y claf neu'r defnyddiwr gwasanaeth i orfod gofyn amdanynt.

Er bod safonau'r Gymraeg a *Mwy na geiriau* yn gosod seiliau ar gyfer cynyddu'r gofal sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg mae sefyllfa'r Gymraeg yn y sector wedi aros yn ei hunfan ac nid oes gwarant – o bell ffordd - y bydd siaradwyr Gymraeg yn derbyn gofal clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae angen arweiniad cadarn gan y gwasanaeth iechyd yn ganolog a llawer mwy o fuddsoddiad a gweithredu dwys a phenodol i drawsnewid y sefyllfa hon er mwyn sicrhau bod gofal clinigol ar gael yn Gymraeg i bawb lle bynnag y bônt.

## Beth?

Erbyn diwedd cyfnod y llywodraeth nesaf rhaid trawsnewid y gofal clinigol sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg. Mae angen canolbwyntio adnoddau ac ymdrechion sylweddol ym **meysydd blaenoriaeth Mwy na geiriau** (sef plant a phobl ifanc; pobl hŷn; pobl ag anableddau dysgu; defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl; pobl sy'n byw â dementia; pobl sy'n defnyddio gwasanaethau strôc; pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi iaith a lleferydd); y **meysydd blaenoriaeth a adnabuwyd gan y byrddau iechyd yn eu cynlluniau 5-mlynedd** (a luniwyd yn unol â safon 110); ac mewn **gofal sylfaenol**.

- **Cynyddu buddsoddiad canolog Gwasanaeth Iechyd Cymru yn y Gymraeg drwy ariannu adran o swyddogion arweiniol arbenigol** fydd yn sicrhau bod gofal yn y Gymraeg yn rhan annatod o bob elfen o lwybrau gofal y meysydd a flaenoriaethir uchod. Byddant yn gweithio o fewn a rhwng adrannau ac yn rhannu arfer da ar draws y gwasanaeth iechyd a gofal gan weithio gyda chyrff proffesiynol, rheoleiddwyr, arolygiaethau, byrddau a chyrff iechyd, arweinwyr gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, elusennau ac eraill sy'n rhan o lwybrau gofal cleifion. Byddant yn rhan o ddatblygiad strategaethau a chynlluniau gweithredu yn y meysydd hyn fel y bo gofynion penodol ac arweiniad ynghylch y Gymraeg ar gyfer byrddau iechyd, darparwyr gofal cymdeithasol ac eraill sy'n rhan o ddarparu gofal clinigol i gleifion. Byddant yn adnabod anghenion y gweithlu a'r adnoddau a'r dechnoleg sydd eu hangen i ddarparu'r gofal yn Gymraeg:
- **Cyllido datblygu a chynllunio'r gweithlu** sy'n gallu darparu gofal yn Gymraeg yn y meysydd a flaenoriaethir fel y bo siaradwyr Cymraeg yn derbyn gofal yn y Gymraeg lle bynnag y bônt. Bydd rhaid cael nifer digonol o staff â'r sgiliau Cymraeg priodol yn y mannau cywir ar yr adeg cywir fel y bo modd i becynnau gofal siaradwyr Cymraeg fod ar gael yn Gymraeg. Dan arweiniad y swyddogion arweiniol mae angen adnabod sgiliau presennol y gweithlu yn y meysydd blaenoriaeth, cyllido datblygu'r sgiliau hynny a chynllunio gweithlu'r dyfodol fel y bo ganddynt y sgiliau Cymraeg angenrheidiol yn awr ac yn y dyfodol. Mae hefyd yn golygu bod angen gosod arweiniad ar gynllunio'r gweithlu o ddydd i ddydd i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael yn ôl y gofyn i fod yn rhan o becynnau gofal unigolion.
- **Cyllido adnoddau a thechnoleg pwrpasol** i alluogi darparu gofal clinigol yn Gymraeg yn y meysydd a flaenoriaethir uchod. Mae iaith a chyfathrebu yn elfennau hanfodol o ddarparu gofal yn y meysydd hyn felly rhaid cael profion diagnostig ac adnoddau safonol i drin y cyflyrau a chefnogi adferiad cleifion. Mae technoleg gwybodaeth, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, yn gynyddol yn rhan o ofal cleifion a rhaid sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o'r technolegau hyn i hwyluso darparu gofal yn y meysydd a flaenoriaethir.
- **Ymrwymo i adolygu, a lle bo'n berthnasol, ddiwygio'r dyletswyddau gofal sylfaenol** a osodwyd yn 2019 a'r safonau cysylltiedig gan nad yw'r dyletswyddau hynny'n adlewyrchu'r newid sydd wedi bod yn ymwneud cleifion â gwasanaethau gofal sylfaenol (e.e. cynnydd mewn ymgynghoriadau ffôn a'r defnydd o TG) nac ychwaith ddiwygiadau i ofal sylfaenol sy'n dod â gofal sylfaenol a gwasanaethau eraill megis fferylliaeth, therapi, tai, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl, y gymuned a'r trydydd sector yn agosach at ei gilydd, yn aml mewn canolfannau iechyd integredig.

## Gwybodaeth ychwanegol

*Mwy na geiriau, Cynllun Pum Mlynedd 2022-27*

Dogfen gyngor Comisiynydd y Gymraeg : Dogfen Gyngor Arferion Da Safon 110

Gwerthusiad Mwy na geiriau 2016-19

Y Gymraeg mewn gofal sylfaenol

Fy Iaith, Fy Iechyd: Ymholiad Comisiynydd y Gymraeg i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol, Comisiynydd y Gymraeg, 2015

## 5. Sefydlu fframwaith hyfforddiant iaith Gymraeg pum mlynedd fel rhan orfodol o hyfforddi fel athro yng Nghymru

### Pam?

Mae sicrhau cynnydd sylweddol yn y niferoedd sy'n datblygu'n siaradwyr Cymraeg drwy'r gyfundrefn addysg yn un o gonglfeini strategaeth Cymraeg 2050. Ni fydd modd cyflawni'r amcanion hyn oni bai bod cynnydd sylweddol yn nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd nid yw'r strategaeth ar gyfer creu gweithlu addysg dwyieithog yn agos at adlewyrchu maint uchelgais Cymraeg 2050.

Nid yw nifer y siaradwyr Cymraeg presennol, a'r nifer o siaradwyr Cymraeg sy'n deillio o'r gyfundrefn addysg gyfredol, yn debygol o arwain at ddigon o ofalwyr, athrawon a darlithwyr i gyflawni amcanion Bil y Gymraeg ac Addysg. Heb ymyrraeth sylweddol, mae perygl y gwelwn ni gylch diddiwedd lle bydd prinder gofalwyr, athrawon a darlithwyr cyfrwng Cymraeg yn rhwystr parhaus rhag sicrhau cynnydd yn nifer yr  unigolion sy'n gadael yr ysgol yn medru siarad a defnyddio'r Gymraeg.

Os ydym am symbylu newid go iawn yn y niferoedd sy'n gadael yr ysgol yn siarad Cymraeg yn hyderus, yna mae angen ymyrraeth sylweddol ym maes cynllunio gweithlu addysg ddwyieithog. Dyma un maes sylfaenol lle gall buddsoddiad cadarn a beiddgar y Llywodraeth arwain at newidiadau uniongyrchol a phellgyrhaeddol i nifer y siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol.

### Beth?

Ymrwymiad i sefydlu fframwaith hyfforddiant iaith Gymraeg pum mlynedd fyddai'n rhan orfodol o hyfforddi a chymhwyso fel athro yng Nghymru. Byddai'r fframwaith â'r nod hir dymor o sicrhau bod pob athro sy'n cymhwyso yng Nghymru yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai hyn yn cynnwys:

- **Gosod cyfrifoldebau clir i sefydliadau penodol i ddatblygu a gweithredu elfennau o'r fframwaith:** byddai hyn yn cynnwys ystyried rôl allweddol Cyngor y Gweithlu Addysg, Medr, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol.
- **Mewn cydweithrediad â'r partneriaid a nodir uchod, sefydlu fframwaith hyfforddiant iaith Gymraeg yn rhan orfodol o hyfforddi a chymhwyso fel athro yng Nghymru:** byddai'r hyfforddiant yn cychwyn fel rhan greiddiol o bob cwrs Addysg Gychwynnol Athrawon, ac yna yn parhau fel rhan ofynnol o gyfnod sefydlu a dysgu proffesiynol athrawon newydd am bedair blynedd cyntaf eu gyrfa. Byddai angen i'r fframwaith gynllunio cyfres o lwybrau hyfforddiant Cymraeg gwahanol wedi'u teilwra ar gyfer hyfforddeion â lefelau hyfedredd gwahanol yn y Gymraeg. Byddai modd i'r fframwaith osod gweledigaeth hir dymor ynghylch sut byddai'r disgwyliadau a'r hyfforddiant yn cael eu cynyddu dros amser, yn unol ag amserlen ddisgwyliedig Bil y Gymraeg ac Addysg.

- **Adolygu deddfwriaeth berthnasol:** byddai hyn yn cynnwys deddfwriaeth sy'n ymwneud ag achredu cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon, safonau proffesiynol ar gyfer athrawon, statws athro cymwysedig, a chyfnod sefydlu athrawon newydd gymhwyso.
- **Datblygu cynlluniau a fframweithiau cyfatebol ar gyfer y gweithlu addysg ehangach:** Er y byddai'r fframwaith 5 mlynedd uchod yn targedu athrawon yn benodol, dylid hefyd ddatblygu fframweithiau hyfforddiant iaith Gymraeg cyfatebol ar gyfer cymorthyddion, gweithlu'r sector blynyddoedd cynnar, a'r gweithlu addysg ôl-16.

## Gwybodaeth ychwanegol

Y Gymraeg a'r gweithlu addysg statudol yng Nghymru, Nodyn briffio Comisiynydd y Gymraeg

Ymateb Comisiynydd y Gymraeg i gynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg

Tystiolaeth Comisiynydd y Gymraeg i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)

Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)